



Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Ardal Caerhun a Threfriw

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Ionawr 2013

ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB (AEC)

Enw'r Cynllun	Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Cam 2.5 Ardal Caerhun a Threfriw		
Y Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y cynllun	Geraint James, Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg		
Enw'r sawl sy'n llenwi'r ffurflen asesiad effaith	Bethan Lewis, Swyddog y Cynllun		
Adran	Gwasanaethau Addysg	Dyddiad yr Asesiad	17/01/2013

ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB WEDI'I LENWI GAN		CANLYNIAD / GWEITHREDU A GYTUNWYD GAN BENNAETH GWASANAETH	
Dyddiad	17/01/2013	Dyddiad	17/01/2013
Enw	Bethan Lewis <i>(Swyddog y Cynllun)</i>	Enw	Geraint James <i>(Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)</i>
Llofnod		Llofnod	

CAM 1 – Nodi Prif Nod ac Amcanion y Polisi neu Ymarfer

1. Beth sy'n cael ei asesu? (***Cliciwch ddwywaith ar y bocs a dethol 'gwiriwyd' fel bo'n briodol i'r groes X***)

- Polisiâu neu ymarfer newydd neu adolygedig
- Gweithdrefn newydd (sy'n addasu cyflwyno gwasanaeth neu ymarfer cyflogaeth)
- Adolygiad gwasanaeth neu gynigion ail drefnu sy'n effeithio ar yr ardal a / neu staff
- Cynigion effeithlonrwydd neu arbedion
- Gosod dyraniadau newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd
- Penderfyniadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, cyflogwyr neu'r gymdeithas ehangach

Cynigion cynllun newydd sy'n effeithio ar staff, ardaloedd neu mynediad i'r amgylchedd newydd a adeiladwyd, e.e., gwaith adeiladu newydd neu addasiadau i adeiladau sy'n bodoli

- Arall, esboniwch yn y bocs isod:

2. Beth yw nod ac amcanion cyffredinol y polisi neu ymarfer ?

Gan gymryd i ystyriaeth y strategaeth a fabwysiadwyd gan Gabinet Conwy ar 26 Hydref 2010, prif nod y cynllun yw:

- bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n deg fel bod holl blant y sir yn elwa
- bod ysgolion cynradd yn addas i gyfarfod datblygiadau cwricwlwm newydd
- parhau i gefnogi ysgolion wrth wella safonau addysg, a sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys yn cynnwys yr holl elfennau, ar gyfer pob grŵp oedran
- bod nifer priodol o leoedd yn ysgolion cynradd Conwy
- arweiniad effeithiol yn ysgolion Conwy, a
- bod ysgolion yn canolbwyntio ar y fro

Wrth weithio i gyfarfod y safonau a gytunwyd ar gyfer addysg mewn ysgolion cynradd fel y nodwyd yn y saith blaenoriaeth allweddol, bydd Conwy yn mesur llwyddiant y cynllun trwy'r amcanion canlynol:

Amcan 1 – Bod y gwariant a ragwelwyd fesul disgybl ymhob un o ysgolion Conwy (*yn seiliedig ar ffordd gytunedig ymlaen y Cabinet ymhob ardal*) o fewn goddefiad cytunedig cyfartaledd adolygedig Conwy, erbyn diwedd Cam 2.

Amcan 2 - Holl ysgolion cynradd Conwy a arolygwyd o fewn blwyddyn academiaidd yn cael eu barnu gan ESTYN i fod o leiaf yn ddigonol yn y tri chwestiwn allweddol.

Amcan 3 - Bod y canran o leoedd gwag a ragwelwyd mewn ysgolion cynradd unigol (*yn seiliedig ar ffordd gytunedig ymlaen y Cabinet ymhob ardal*) yn llai na 25%, a llai na 10% ar draws y sector, erbyn cam 2 (agenda cenedlaethol).

Amcan 4 - Y canran gor gapasiti ragwelwyd mewn ysgolion cynradd unigol (*yn seiliedig ar ffordd gytunedig ymlaen y Cabinet*) yn parhau'n llai na 10%, erbyn Cam 2 (agenda cenedlaethol).

3. Pwy ddylai elwa/gael ei helpu gan y cynllun (rhanddeiliad)?

Plant a Phobl Ifanc Conwy.

4. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghori / cylchoedd diddordeb ?

Plant a phobl ifanc
Rhieni
Llywodraethwyr
Holl staff yr ysgol
Ardaloedd a thrigolion lleol
Yr esgobaeth
Mannau cyn ysgol
Grwpiau iaith Gymraeg
Aelodau

CAM 2 - Ystyried gwybodaeth sy'n bodoli a beth mae'n ei ddweud

Wrth lenwi'r adran hon, bydd angen ystyried a oes digon o wybodaeth i lenwi'r AEC, neu a oes angen cynnal cyfnod o ymgynghori cyn mynd ymlaen. Mae'r broses sy'n ymwneud â'r broses AEC yn gofyn am **ymgynghori a chynnwys pobl sy'n cynrychioli diddordeb y rhai sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion a amddiffynnir a gyda'r rhai sydd â diddordeb yn y modd rydych yn gwneud eich swyddogaethau**. Mae angen i hyn fod yn gymesur â'r polisi neu'r ymarfer sy'n cael ei asesu am Effaith Cydraddoldeb. Efallai eich bod eisoes wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar yn benodol ar y polisi neu ymarfer. Efallai y bydd swyddogion eraill o fewn CBSC wedi gwneud gwaith ymgynghorol a fydd yn berthnasol i'r AEC hwn a gallwch adolygu'r bas data Ymwneud Ardal i ganfod pa weithgareddau ymwneud a gynhaliwyd yng Nghonwy a chanfod a yw hyn yn berthnasol. Os nad oes gennych ddim neu fawr wybodaeth o ymwneud sy'n berthnasol i'r AEC hwn, dylech ystyried cynnal peth gwaith gyda rhanddeiliad a grwpiau cynrychioli perthnasol i sicrhau nad ydych yn esgeuluso, heb ymwybod, anghenion pob grŵp a amddiffynnwyd.

5. Beth a wyddom eisoes am effaith ar bob nodwedd a amddiffynnwyd o'ch profiad o gyflwyno'r gwasanaeth presennol neu ymwneud neu ymgynghoriad blaenorol ? Gallech gyfeirio at y Ffurflen Asesiad Sgrinio Effaith Cydraddoldeb Dechreuol a'r bas data Ymwneud Ardal.

I bob ysgol, beth a wyddoch eisoes am berthnasedd y polisi? Beth yw'r prif faterion sydd angen i chi eu hystyried?

Ysgol Dolgarrog

Grŵp a Amddiffynnwyd	Perthnasedd y polisi / ymarfer gan nodweddion a amddiffynnwyd
Hil	(PLASC 2012) Yn Ysgol Dolgarrog mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn 'Wyn Prydeinig' gyda'r gweddill yn 'Wyn ac Asiaidd'. Dywed ffigyrau PLASC Ionawr 2012 bod 72% o ddisgyblion yn 'Gymry'. Mae'r 28% sy'n weddill yn 'Brydeinig'.

	<p>Dywed adroddiad arolwg ESTYN a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2012 bod “Parch tuag at amrywiaeth a chydreddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo trwy waith amrywiol yn astudio gwledydd tramor.”</p> <p>Yn ôl PLASC Ionawr 2012 nid oes disgyblion yn Ysgol Dolgarrog oedd yn cael cefnogaeth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Iaith gyntaf holl ddisgyblion yr ysgol yw ‘Saesneg a/neu Gymraeg’.</p> <p>Mae ffigyrau blynyddol ystadegau Medi yn cadarnhau na fu achos o fwlio oherwydd materion hiliol yn yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf.</p> <p>Strategau a Chefnogaeth: Mae Gwasanaethau Addysg Conwy yn darparu cefnogaeth i ddisgyblion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf trwy’r tîm ‘Saesneg fel iaith Ychwanegol’ (a ddarperir ar y cyd â Sir Ddinbych).</p> <p>Mae gan Gonwy ganllawiau a threfniadau ardderchog yng nghyd-destun “gwrth fwlio”, gyda strategau effeithiol i ganfod, ymyrryd a chofnodi achosion o fwlio. Canolbwyntiodd cynhadledd hyfforddiant rhagweithiol ar gyfer cydlynwyr gwrthfwlio ac aelodau cyngor ysgol ar “weithio ynghyd” i drin materion gwrthfwlio yn y sector cynradd tra canolbwyntiodd cynrychiolwyr uwchradd ar faterion diogelwch e, homoffobig ac aflonyddu rhywiol.</p>
Anabledd	<p>Dywed data PLASC 2012 nad oes disgyblion yn bresennol yn Ysgol Dolgarrog sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Mae 16 o ddisgyblion sy’n cael peth cefnogaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae anghenion y disgyblion hyn yn amrywio ymysg y categorïau canlynol: ‘Gweithredu Ysgol’ a ‘Gweithredu Ysgol a Mwy’. O’r disgyblion hyn sy’n cael peth cefnogaeth mae 9 o fechgyn a 7 geneth.</p> <p>Strategau a Chefnogaeth: Mae gan Wasanaeth ADY y Cyngor chwe maes gwasanaeth rhyng-gysylltiedig: y Tîm Cefnogaeth Gweinyddol, y Gwasanaeth Synhwyraidd/y Gwasanaeth Iaith a Lleferydd / athrawon Cwricwlwm Ymgynnwys, y Gwasanaeth Cefnogi Dysgu (Dyslecsia), y Gwasanaeth Cymorth Addysgu, Y Gwasanaeth Anhwylder Sbectrwem Awtistig, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, sy’n ymroddedig i ddatblygu polisïau ac ymarferion sy’n sicrhau cydraddoldeb cyfle a mynediad; diogelu disgyblion sy’n agored i niwed; a chanolbwyntio ar godi cyrhaeddiad i bob dysgwr a chynyddu ymwneud â’u hysgol a’u bro (Ymgynnwys a Chefnogaeth Disgybl). Mae’r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i saith ysgol uwchradd, 59 ysgol gynradd, un ysgol arbennig a chwe uned cyfeirio disgyblion.</p>
Rhyw	(PLASC 2012) Ers Ionawr 2012 mae gan Ysgol Dolgarrog 48 o ddisgyblion llawn amser; mae 23 yn

	<p>fechgyn a 25 yn enethod. Mae gan yr ysgol 10 o ddisgyblion rhan amser.</p> <p>Er mwyn canfod a yw bechgyn neu ferched yn perfformio'n well na'i gilydd gallwn edrych ar ddata ar lefel ysgol, y gellir ei gymharu â data a roddwyd ar lefel Conwy a Chymru gyfan. Yn asesiadau dangosydd cyfnod sylfaen (DCS) 1 Mai 2012, nid oedd bechgyn Ysgol Dolgarrog yn cyflawni'r canlyniad DCS angenrheidiol, ac roedd merched yr ysgol yn tanberfformio wrth gymharu â chyfartaledd Cymru Gyfan a Chonwy; gan olygu'n gyffredinol bod yr ysgol yn tanberfformio wrth gymharu â chyfartaledd sir a chenedlaethol. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r genethod yn perfformio'n well na'r bechgyn ar lefel ysgol mewn Dangoswyr Pwnc Craidd (DPC) a hefyd yn sgorio'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y sir a ffigyrau cenedlaethol. Fel ysgol roedd DPC cyrhaeddiad yn is na chyfartaledd sirol a chenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 2.</p> <p>Strategau Cefnogaeth: Cedwir golwg ar berfformiad fesul rhyw ar lefel pwnc a symudir ymlaen trwy Gynllun y Gwasanaeth Addysg i drin unrhyw fylchau, gan gyfeirio cefnogaeth at y maes pwnc sydd ei angen.</p>
Oed	<p>Dywed data PLASC Ionawr 2012 PLASC o'r 58 disgybl sy'n mynychu Ysgol Dolgarrog, mae 10 dan bedair oed 4 ac yn mynychu'n rhan amser, 18 yn bresennol yng Nghyfnod Allweddol 1 a'r 30 sy'n weddill yng Nghyfnod Allweddol 2.</p> <p>Ni roddir gwybodaeth a ystyrir yn 'sensitif' e.e. ethnigrwydd, cenedl, am blant dan 5 oed, yn unol ag argymhellion cenedlaethol.</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd statudol i gynnig addysg llawn amser i blant 5 – 16 oed.</p>
Crefydd a Chredo	<p>Y Sefyllfa Bresennol: Mae holl ysgolion Conwy a'u disgyblion yn cynnal addoliad dyddiol, ac mae addysg grefyddol yn cyfrif am 5% o amser cwricwlwm i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 1 - 4.</p> <p>Nid yw Ysgol Dolgarrog yn ysgol enwadol, sy'n cael ei adlewyrchu yn nadansoddiad credo crefyddol disgyblion. Yn Ysgol Dolgarrog, cofnodir nad oes gan 50% o ddisgyblion 'ddim crefydd', gyda 36% yn 'Gristnogion'. Mae'r 14% sy'n weddill yn 'Gatholig', 'Anglicaniaid' ac 'Arall'.</p> <p>Dywed adroddiad arolwg Estyn 2012 Ysgol Dolgarrog "Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth sicrhau cymdeithas ofalgar, ble mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus. Nodwedd amlwg yw'r ymdeimlad o deulu, yn seiliedig ar egwyddorion sy'n parchu hawl unigolion o fewn yr ysgol."</p>

	<p>Strategau Cefnogi: Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i fod â phwyllgor sefydlog (CYSAG) i gadw golwg ar ddarpariaeth a chyrhaeddiad disgyblion ac ysgolion ynghylch y maes llafur cytunedig Add. Gref.</p>
Tueddiad Rhywiol	Amherthnasol
Newid Rhyw	Amherthnasol
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Amherthnasol
Beichiog a Mamolaeth	Amherthnasol
Iaith Gymraeg	Gorffennwyd ' <i>Asesiad Effaith Iaith</i> ' llawn ar gyfer ardal Caerhun a Threfriw .
Arall (nodwch)	<p>Ystyriwyd ffactorau cymdeithasol-economaidd yn yr '<i>Asesiad Effaith Cymunedol</i>' a wnaed ar gyfer ardal Caerhun a Threfriw.</p> <p>Yn bresennol mae gan 11 o ddisgyblion hawl i brydau am ddim yn Ysgol Dolgarrog, gyda 10 yn cael pryd am ddim ar ddiwrnod cyfrifiad PLASC. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod ysgolion mewn teuluoedd gan gymryd i ystyriaeth ddangoswyr amddifadedd. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw golwg a gwerthuso perfformiad ysgol o fewn y teuluoedd hyn er mwyn cyfeirio cefnogaeth yn briodol er lleihau'r bwch amddifadedd. Mae hyn yn cefnogi Strategaeth Tlodi Plant LICC.</p> <p>Mewn perthynas ag ysgolion tebyg yng Nghymru, yn nhermau'r ganran o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad Ysgol Dolgarrog DCS Cyfnod Sylfaen 2012 a DPC Cyfnod Allweddol 2 wedi aros yn bennaf is law'r canolrif (y 50% isaf).</p> <p>Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru ni roddir gwybodaeth yn seiliedig ar lai na 5 disgybl er cael gwared â'r perygl o ddatgelu canlyniadau disgybl unigol yn ddamweiniol.</p>

Ysgol Tal Y Bont

Grŵp a Amddiffynnwyd	Perthnasedd y polisi / swyddogaeth yn ôl nodwedd a amddiffynnwyd
Hil	<p>Dywed ffigyrau PLASC Ionawr 2012 bod 97% o ddisgyblion Tal y Bont yn 'Wyn Prydeinig' gyda'r gweddill yn 'Wyn ac Asiaidd', categoriwyd yr wybodaeth am y gweddill fel 'Wedi'i wrthod'. O'r disgyblion sy'n Ysgol Tal y Bont mae 64% yn 'Gymry', y 36% sy'n weddill yn 'Saeson neu 'Brydeinig'.</p> <p>Dywed adroddiad ESTYN Gorffennaf 2010 "Mae'r cynnydd mae pob disgybl yn ei wneud yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a moesol yn dda. Maent yn ymddwyn yn gyfrifol, yn ystyriol o deimladau ac anghenion eraill ac yn cymdeithasu a chwarae'n hapus. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn parchu amrywiaeth cred, agwedd a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill."</p> <p>Mae data ffurflenni PLASC 2012 yn cadarnhau nad oes disgyblion yn Ysgol Tal y Bont yn bresennol sy'n cael cefnogaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol.</p> <p>Mae ffigyrau blynyddol ystadegau Medi yn dangos na fu ond un achos o fwlio yn yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf.</p> <p>Strategau a Chefnogaeth: Mae Gwasanaethau Addysg Conwy yn darparu cefnogaeth i ddisgyblion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf trwy'r tîm 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' (a ddarperir ar y cyd â Sir Ddinbych).</p> <p>Mae gan Wasanaethau Addysg Conwy ganllawiau a threfniadau ardderchog yng nghyd-destun "gwrth fwlio", gyda strategau effeithiol i ganfod, ymyrryd a chofnodi achosion o fwlio. Canolbwyntiodd cynhadledd hyfforddiant rhagweithiol ar gyfer cydlynwyr gwrthfwlio ac aelodau cyngor ysgol ar "weithio ynghyd" i drin materion gwrthfwlio yn y sector cynradd tra canolbwyntiodd cynrychiolwyr uwchradd ar faterion diogelwch e, homoffobig ac aflonyddu rhywiol.</p>
Anabledd	<p>Yn bresennol nid oes disgyblion yn Ysgol Tal y Bont gyda Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, sy'n cael ei gadarnhau gan ddata PLASC Ionawr 2012. Mae 10 disgybl sy'n bresennol yn cael peth cefnogaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae anghenion y disgyblion hyn yn amrywio ymysg y categorïau canlynol; 'Gweithredu Ysgol' a 'Gweithredu Ysgol a Mwy'.</p>

	<p>Dywed arolwg ESTYN “Mae ansawdd y ddarpariaeth i ddisgyblion gyda ADY yn dda ac yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer. Mae'r ysgol yn canfod anghenion yn fuan ac yn ymyrryd pan fo angen. Mae cyfle cyfartal yn cael ei sicrhau i bob disgybl.”</p> <p>Strategau Cefnogaeth: Mae gan Wasanaeth ADY y Cyngor chwe maes gwasanaeth rhyng-gysylltiedig: y Tîm Cefnogaeth Gweinyddol, y Gwasanaeth Synhwyrdd/y Gwasanaeth Iaith a Lleferydd / athrawon Cwricwlwm Ymgynnwys, y Gwasanaeth Cefnogi Dysgu (Dyslecsia), y Gwasanaeth Cymorth Addysgu, Y Gwasanaeth Anhwylder Sbectwm Awtistig, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, sy'n ymroddedig i ddatblygu polisïau ac ymarferion sy'n sicrhau cydraddoldeb cyfle a mynediad; diogelu disgyblion sy'n agored i niwed; a chanolbwyntio ar godi cyrhaeddiad i bob dysgwr a chynyddu ymwneud â'u hysgol a'u bro (Ymgynnwys a Cefnogaeth Disgybl). Mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i saith ysgol uwchradd, 59 ysgol gynradd, un ysgol arbennig a chwe uned cyfeirio disgyblion.</p>
Rhyw	<p>(PLASC 2012) Ers Ionawr 2012 mae gan Ysgol Tal y Bont 38 o ddisgyblion llawn amser, mae 18 yn fechgyn a 20 yn enethod.</p> <p>Er mwyn canfod a yw bechgyn neu ferched yn perfformio'n well na'i gilydd gallwn edrych ar ddata ar lefel ysgol, y gellir ei gymharu â data a roddwyd gan Gonwy ar lefel sirol a Chymru gyfan. Yn asesiadau dangosydd cyfnod sylfaen (DCS) Mai 2012, roedd genethod yr ysgol yn cyflawni'n well na bechgyn yn y canlyniad DCS ar lefelau ysgol, sir a chenedlaethol gan olygu'n gyffredinol bod yr ysgol hefyd yn tanberfformio wrth gymharu â chyfartaledd sir a chenedlaethol. Yng Nghyfnod Allweddol 2, nid yw'r bechgyn na'r genethod yn perfformio'n well na'i gilydd ac fe wnaethant allberfformio o gymharu â sgôr cyfartaledd sirol a chenedlaethol mewn Dangoswyr Pwnc Craidd (DPC)</p> <p>Strategau Cefnogaeth: Cedwir golwg ar berfformiad fesul rhyw ar lefel pwnc a symudir ymlaen trwy Gynllun y Gwasanaeth Addysg i drin unrhyw fylchau, gan gyfeirio cefnogaeth at y maes pwnc sydd ei angen.</p>
Oed	<p>Dywed data PLASC Ionawr 2012 bod 16 o ddisgyblion llawn amser yng Nghyfnod Allweddol 1 a 22 disgybl llawn amser yng Nghyfnod Allweddol 2 yn Ysgol Tal y Bont. Nid oes disgyblion rhan amser yn yr ysgol yn bresennol.</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd statudol i gynnig addysg llawn amser i blant 5 – 16 oed.</p>

Crefydd a Chredo	<p>Y Sefyllfa Bresennol: Mae holl ysgolion Conwy a'u disgyblion yn cynnal addoliad dyddiol, ac mae addysg grefyddol yn cyfrif am 5% o amser cwricwlwm i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 1 - 4.</p> <p>Nid yw Ysgol Dolgarrog yn ysgol enwadol, sy'n cael ei adlewyrchu yn nadansoddiad credo crefyddol disgyblion. Nid oes gan 45% o ddisgyblion 'ddim crefydd', gyda 39% yn 'Gristnogion'. Mae'r 16% sy'n weddill yn 'Fethodistiaid', a chrefyddau eraill.</p> <p>Dywed adroddiad arolwg Estyn 2010: "Ar draws yr ysgol mae disgyblion yn parchu amrywiaeth credo, agwedd a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill".</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i fod â phwyllgor sefydlog (CYSAG) i gadw golwg ar ddarpariaeth a chyrhaeddiad disgyblion ac ysgolion ynghylch y maes llafur cytunedig Add. Gref.</p> <p>.</p>
Tueddiad Rhywiol	Amherthnasol
Newid Rhyw	Amherthnasol
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Amherthnasol
Beichiog a Mamolaeth	Amherthnasol
Yr Iaith Gymraeg	Gorffennwyd ' <i>Asesiad Effaith Iaith</i> ' llawn ar gyfer ardal Caerhun a Threfriw.
Arall (nodwch)	<p>Ystyriwyd ffactorau cymdeithasol-economaidd yn yr '<i>Asesiad Effaith Cymunedol</i>' a wnaed ar gyfer ardal Caerhun a Threfriw.</p> <p>Mae wyth disgybl yn Ysgol Tal y Bont sydd â hawl i brydau ysgol am ddim ac roedd yr wyth disgybl yn cael pryd am ddim ar ddiwrnod cyfrifiad PLASC.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gosod ysgolion mewn teuluoedd gan gymryd i ystyriaeth ddangoswyr amddifadedd. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw golwg a gwerthuso perfformiad ysgol o fewn y teuluoedd hyn er mwyn cyfeirio cefnogaeth yn briodol er lleihau'r bwlch amddifadedd. Mae hyn yn cefnogi Strategaeth Tlodi Plant LICC.</p>

	<p>Mewn perthynas ag ysgolion tebyg yng Nghymru, yn nhermau'r ganran o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad Ysgol Tal y Bont yn DCS Cyfnod Sylfaen 2012 islaw'r canolrif (y 50% is). Yn DPC Cyfnod Allweddol 2 mae perfformiad Ysgol Tal y Bont uwch law'r canolrif (y 50% uchaf).</p> <p>Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru ni roddir gwybodaeth yn seiliedig ar lai na 5 disgybl er cael gwared â'r perygl o ddatgelu canlyniadau disgybl unigol yn ddamweiniol.</p>
--	---

Ysgol Trefriw

Grŵp a Amddiffynnwyd	Perthnasedd y polisi / ymarfer gan nodweddion a amddiffynnwyd
Hil	<p>Dywed data PLASC 2012 Ysgol Trefriw bod 92% o'r disgyblion yn 'Wyn Prydeinig', mae'r 8% sy'n weddill yn 'Wyn arall' a 'Sbaeneg'.</p> <p>O'r 39 disgybl sy'n Ysgol Trefriw mae 56% yn 'Gymry', 36% yn 'Brydeinig' a'r 8% sy'n weddill yn Saesneg' ac 'Arall'.</p> <p>Dywed adroddiad arolwg Estyn Mehefin 2008: "Mae pob disgybl yn cael cyfle cyfartal, ac maent yn cael cyfle i brofi diwylliannau o wledydd gwahanol. Mae cydnabod amrywiaeth ac ymgynnwys cymdeithasol yn llunio rhan o fywyd a gwerthoedd yr ysgol ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ymddygiad disgyblion."</p> <p>Yn seiliedig ar ffigyrau PLASC Ionawr 2012 mae dau ddisgybl yn bresennol yn Ysgol Trefriw sy'n cael cefnogaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol.</p> <p>Yn ôl ffurflen ystadegau blynyddol Medi ni fu achos o fwlio yn Ysgol Trefriw yn ystod y tair blynedd diwethaf.</p> <p>Strategau a Chefnogaeth: Mae Gwasanaethau Addysg Conwy yn darparu cefnogaeth i ddisgyblion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf trwy'r tîm 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' (a ddarperir ar y cyd â Sir Ddinbych).</p> <p>Mae gan Wasanaethau Addysg Conwy ganllawiau a threfniadau ardderchog yng nghyd-destun "gwrth fwlio", gyda strategau effeithiol i ganfod, ymyrryd a chofnodi achosion o fwlio. Canolbwyntiodd cynhadledd hyfforddiant rhagweithiol ar gyfer cydlynwyr gwrthfwlio ac aelodau cyngor ysgol ar "weithio ynghyd" i drin materion gwrthfwlio yn y sector cynradd tra canolbwyntiodd cynrychiolwyr uwchradd ar</p>

	faterion diogelwch e, homoffobig ac aflonyddu rhywiol.
Anabledd	<p>(PLASC 2012) Yn Ysgol Trefriw mae 13 o ddisgyblion sy'n cael peth cefnogaeth Anghenion Addysgol Arbennig. Mae anghenion y disgyblion hyn yn amrywio ymysg y categorïau canlynol: 'Gweithredu Ysgol' a 'Gweithredu ysgol a Mwy'. O'r 13 disgybl sy'n cael cefnogaeth mae saith yn fechgyn a chwech yn enethod. Pan lenwyd ffurflen PLASC Ionawr nid oedd disgyblion yn Ysgol Trefriw oedd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.</p> <p>Dywed Arolwg ESTYN 2008 "Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion gyda ADY yn dda. Mae'r cydlynnydd sydd wedi cymryd cyfrifoldeb yn ystod y misoedd diwethaf, yn cydweithio'n effeithiol gydag athrawon i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu canfod yn gynnar."</p> <p>Strategau Cefnogaeth: Mae gan Wasanaeth ADY y Cyngor chwe maes gwasanaeth rhyng-gysylltiedig: y Tîm Cefnogaeth Gweinyddol, y Gwasanaeth Synhwyraidd/y Gwasanaeth Iaith a Lleferydd / athrawon Cwricwlwm Ymgynnwys, y Gwasanaeth Cefnogi Dysgu (Dyslecsia), y Gwasanaeth Cymorth Addysgu, Y Gwasanaeth Anhwylder Sbectwm Awtistig, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, sy'n ymroddedig i ddatblygu polisïau ac ymarferion sy'n sicrhau cydraddoldeb cyfle a mynediad; diogelu disgyblion sy'n agored i niwed; a chanolbwyntio ar godi cyrhaeddiad i bob dysgwr a chynyddu ymwneud â'u hysgol a'u bro (Ymgynnwys a Cefnogaeth Disgybl). Mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i saith ysgol uwchradd, 59 ysgol gynradd, un ysgol arbennig a chwe uned cyfeirio disgyblion.</p>
Rhyw	<p>Mae gan Ysgol Trefriw 36 disgybl llawn amser; mae 17 yn fechgyn a 19 yn enethod.</p> <p>Er mwyn canfod a yw bechgyn neu ferched yn perfformio'n well na'i gilydd gallwn edrych ar ddata ar lefel ysgol, y gellir ei gymharu â data a roddwyd gan Gonwy ar lefel sirol a Chymru gyfan. Yn asesiadau dangosydd cyfnod sylfaen (DCS) Mai 2012, roedd genethod yn perfformio'n well na bechgyn yn ogystal â chyflawni cyfartaledd uwch na'r sir a chenedlaethol. Fodd bynnag, mae perfformiad cyffredinol yr ysgol yn is na chyfartaledd sirol a chenedlaethol Cymru.</p> <p>Yng Nghyfnod Allweddol 2 mae bechgyn a genethod yn perfformio cystal â'i gilydd ar draws Dangoswyr Pwnc Craidd (DPC) ac mae perfformiad ymhob maes yn uwch na chyfartaledd DPC sirol a chenedlaethol.</p> <p>Dywed adroddiad Estyn 2008 "Wrth ddadansoddi'r data ar gyfer cyfnodau allweddol 1 a 2 dros y blynyddoedd diwethaf, nid oes patrwm amlwg sy'n ymddangos ym mherfformiad bechgyn, mewn cymhariaeth â pherfformiad genethod."</p>

	<p>Strategau Cefnogaeth: Cedwir golwg ar berfformiad fesul rhyw ar lefel pwnc a symudir ymlaen trwy Gynllun y Gwasanaeth Addysg i drin unrhyw fylchau, gan gyfeirio cefnogaeth at y maes pwnc sydd ei angen.</p>
Oed	<p>Yn ôl data PLASC Ionawr 2012 mae 36 disgybl llawn amser yn mynychu Ysgol Trefriw. Mae 12 disgybl yng Nghyfnod Allweddol 1 a 24 disgybl llawn amser yng Nghyfnod Allweddol 2. Yn bresennol mae gan yr ysgol dri disgybl rhan amser.</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd statudol i gynnig addysg llawn amser i blant 5 – 16 oed.</p>
Crefydd a Chredo	<p>Y Sefyllfa Bresennol: Mae holl ysgolion Conwy a'u disgyblion yn cynnal addoliad dyddiol, ac mae addysg grefyddol yn cyfrif am 5% o amser cwricwlwm i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 1 - 4.</p> <p>Nid yw Ysgol Trefriw yn ysgol enwadol, sy'n cael ei adlewyrchu yn nadansoddiad o greddo crefyddol disgyblion. Cofnodir 49% o ddisgyblion fel 'Cristnogion', a 25% â 'Dim crefydd', 18% 'Catholig' a'r gweddill, 8% yn 'Fethodistiaid'.</p> <p>Mae adroddiad arolwg Estyn Mehefin 2008 yn cadarnhau bod: "Disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol. Maent yn cyfrannu'n hyderus i sesiynau addoli ar y cyd ac yn gallu myfyrio'n dawel a phriodol."</p> <p>Strategau Cefnogi: Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i fod â phwyllgor sefydlog (CYSAG) i gadw golwg ar ddarpariaeth a chyrhaeddiad disgyblion ac ysgolion ynghylch y maes llafur cytunedig Add. Gref.</p>
Tueddiad Rhywiol	Amherthnasol
Newid Rhyw	Amherthnasol
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Amherthnasol
Beichiog a Mamolaeth	Amherthnasol

Iaith Gymraeg	Gorffennwyd 'Asesiad Effaith Iaith' llawn ar gyfer ardal Caerhun a Threfriw.
Arall (nodwch)	<p>Ystyriwyd ffactorau cymdeithasol-economaidd yn yr 'Asesiad Effaith Cymunedol' a wnaed ar gyfer ardal Caerhun a Threfriw.</p> <p>O'r disgyblion sy'n Ysgol Trefriw sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, roeddent oll yn cael pryd am ddim ar ddiwrnod cyfrifiad PLASC 2012.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gosod ysgolion mewn teuluoedd gan gymryd i ystyriaeth ddangoswyr amddifadedd. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw golwg a gwerthuso perfformiad ysgol o fewn y teuluoedd hyn er mwyn cyfeirio cefnogaeth yn briodol er lleihau'r bwch amddifadedd. Mae hyn yn cefnogi Strategaeth Tlodi Plant LIC.</p> <p>Mewn perthynas ag ysgolion tebyg yng Nghymru, yn nhermau canran y disgyblion sy'n cael prydau am ddim, mae perfformiad Ysgol Trefriw yn DCS y Cyfnod Sylfaen yn 2012 is law'r canolrif (y 50% is). I DPC Cyfnod Allweddol 2 mae perfformiad Ysgol Trefriw uwch law'r canolrif (y 50% uchaf).</p> <p>Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru ni roddir gwybodaeth yn seiliedig ar lai na 5 disgybl er cael gwared â'r perygl o ddatgelu canlyniadau disgybl unigol yn ddamweiniol.</p>

6. Crynhowch y data perthnasol ychwanegol, ymchwil a gwybodaeth rheoli perfformiad sydd gennych eisoes:

Data / Gwybodaeth	Esiamplau
<p>Atebion data Statudol (e.e. PLASC) Atebion ystadegol mewnol Medi Casglu data penodol o'r ysgol (e.e. capasiti) Arolwg ESTYN Gwasanaethau Awdurdod Conwy eraill (e.e. Gwasanaethau Rheoli Eiddo ac Asedau (PMAS), Tîm Gwella a Datblygiad Corfforaethol)</p>	<p>Sgrinio EIA dechreuol Cwynion Canmoliaeth Data defnyddiwr gwasanaeth Adborth defnyddiwr gwasanaeth Arolwg neu archwiliad</p>
Ymchwil neu Wybodaeth Gymharol	Esiamplau
<p>Mae ymchwil (gyda'r llywodraeth, awdurdodau eraill, grwpiau annibynnol, cyrff proffesiynol) yn cael ei wneud yn barhaus i sicrhau ein bod yn ymwybodol o ddatblygiadau cyfredol a meysydd o ymarfer da, sicrhau dull cytbwys. Gellir canfod manylion ein hymchwil ar ein tudalennau gwe www.conwy.gov.uk/education a dilyn y cyswllt.</p> <p>Defnyddir gwybodaeth gymharol trwy'r cynllun i ddarparu persbectif lleol ac awdurdod cyfan.</p>	<p>Arolwg defnyddiwr gwasanaeth Astudiaethau adrannau'r Llywodraeth neu gyrff proffesiynol Data cyfrifiad Cynlluniau ac ymchwil yn seiliedig ar wasanaeth Pa mor Deg yw Cymru (data EHRC)</p>

7. A ydych wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgynghori fel y nodwyd ar ddechrau'r adran hon ac a ydych yn ddigon gwybodus i fynd ymlaen?

Do Na (*rhowch groes*) Os Do, ewch i Gam 3

Os Na, efallai y byddwch yn ystyried oedi yn y fan yma tra rydych yn cynnal gweithgareddau ymgynghori (a dylid eu cynnwys yn eich cynllun gweithredu – Cam 6). Cynhwyswch unrhyw wybodaeth a gafwyd o'r gweithgaredd ychwanegol yn y blwch isod a nodi beth yw'r canfyddiadau allweddol:

CAM 3 - Caffaeliad a Phartneriaeth

Mae Dyletswydd Gyffredinol y sector gyhoeddus yn golygu bod angen i bob awdurdod cyhoeddus ystyried anghenion gwahanol grwpiau wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol hefyd i sefydliadau sector preifat sy'n darparu swyddogaeth gyhoeddus ar ein rhan ac mae angen i ni sicrhau bod y sefydliadau hyn yn ymarfer y swyddogaethau hyn fel bod ein caffaeliad a chadw golwg o'r gwasanaethau hyn yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol.

8. A yw'r polisi neu ymarfer hwn i gael ei weithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) arall?

Ydy Na (*rhowch groes fel bo'n briodol*) Os Na, ewch i Gam 4

9. Os Ydy, sut fyddwch yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol a'r iaith Gymraeg? Meddwl am:

Caffael

- Gosod disgwyliadau cydraddoldeb clir mewn dogfennau tendro a manylion
- Ar beth y seiliwyd eich penderfyniadau yn y broses

Partneriaeth


Pwy sy'n gyfrifol am:

- Gadw golwg ar ddata cydraddoldeb perthnasol
- Aseiad Effaith Cydraddoldeb

gwobrwyo

- Bod cymalau contract yn cynnwys anghenion cydraddoldeb deddfwriaeth
- Mesurau perfformiad a chadw golwg wedi'u cynnwys i gadw golwg ar gydymffurfio

- Cyflwyno gweithredu o AEC
- Sicrhau y cydymffurfia pob partner â deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol a'r iaith Gymraeg



CAM 4 – Asesu Effaith

10. A oes unrhyw dystiolaeth o ddefnydd uwch neu is neu fodlonrwydd gyda'r gwasanaeth gan unrhyw grŵp, ac os felly, sut mae'n cael ei esbonio ?

Dim patrwm arwyddocaol o ddefnyddio neu fodlonrwydd yn cael ei ddatgelu a gysylltwyd ag unrhyw grŵp neu ardal.

11. A yw daearyddiaeth neu ddemograffeg unrhyw grŵp yn datgelu unrhyw beth ?

Mae dadansoddiad o ddisgyblion sy'n mynychu'r tair ysgol yn ardal Caerhun a Threfriw yn dangos bod peth symud ar draws dalgychoedd ysgol ac nad yw plant lleol bob amser yn dewis eu hysgol leol, am resymau heblaw iaith a ffydd.

Yn Ysgol Dolgarrog mae 22% o'r disgyblion yn byw y tu allan i ddalgyrch yr ysgol. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn byw yn nalgyrch Ysgol Tal y Bont. I'r gwrthwyneb, roedd 9% o ddisgyblion oedd yn byw yn nalgyrch Dolgarrog nad oedd yn mynychu'r ysgol leol, ac mae'r disgyblion hyn yn mynychu Ysgol Tal y Bont yn bennaf.

Yn Ysgol Tal y Bont mae 23% o ddisgyblion yn byw y tu allan i'r dalgyrch, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn byw yn nalgyrch Ysgol Llangelynnin. Mae 44% o ddisgyblion yn byw yn nalgyrch Tal y Bont ac yn dewis peidio mynychu eu hysgol leol. O'r disgyblion hyn yr ysgolion maent yn eu mynychu'n bennaf yw Ysgol Dolgarrog, Ysgol Llangelynnin ac Ysgol Porth y Felin.

Dim ond 3% o ddisgyblion Ysgol Trefriw sy'n mynychu o du allan i ddalgyrch yr ysgol; daw'r disgyblion hyn o ddalgyrch Tal y Bont. Mae 24% o ddisgyblion yn byw yn nalgyrch Trefriw ond yn dewis peidio mynychu eu hysgol leol, mae'r mwyafrif o'r disgyblion hyn yn mynychu Ysgol Bro Gwedir gydag eraill yn mynd i ysgolion ar draws y sir.

12. A yw unrhyw un o'r rheolau neu'r modd mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno yn atal neu leihau'r tebygolrwydd o unrhyw grwpiau rhag defnyddio neu gael gwasanaeth neu greu unrhyw rwystrau eraill iddynt?

E.e. oherwydd incwm cyfyng, lleoliad, yr amser o'r dydd pan fydd gwasanaethau ar gael, mynediad i adeiladau, gwybodaeth neu iaith, rheolau hawl, cod gwisgo, rhesymau diwylliannol

▪ AE Ardal

Ar draws y tair ysgol mae amrywiaeth o glybiau gan gynnwys chwaraeon, dawn, coginio a gwau. Mae gan Ysgol Dolgarrog glwb ar ôl ysgol ac mae gan Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw glwb brecwast. Pe bai'r ysgolion yn ymuno nid oes rheswm na allai'r ysgolion hyn barhau gyda'r potensial i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan. Mae'r holl ysgolion yn cymryd rhan yn eisteddfodau'r Urdd ac unwaith yn rhagor, ni ddylai gael effaith ar unrhyw ddewis.

Mae gan Ysgol Dolgarrog ac Ysgol Tal y Bont grwpiau allanol sy'n defnyddio adnoddau'r ysgol. Os eir ymlaen â Dewis 1 efallai y byddai ychydig effaith negyddol ar y grwpiau hyn, yn arbennig yn Ysgol Tal y Bont gan y byddai'n rhaid cymryd i ystyriaeth faterion mynediad. Fodd bynnag, gellir cymryd camau i leihau'r effaith (h.y. defnyddio adnoddau lleol eraill).

Mae Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw yn defnyddio'u neuaddau pentref yn rheolaidd, byddai hyn yn awgrymu effaith negyddol o dan ddewis 1 gan y byddai'r ardaloedd hyn yn colli eu hysgolion. Fodd bynnag, wrth ystyried gyrywyr y cynllun, efallai y bydd ysgolion ar eu mantais gan fod y posibilrwydd o well adnoddau gyda dewisiadau 1, 3 a 4.

▪ AE Iaith

Gan fod y tair ysgol yn bresennol yn ysgolion cyfrwng y Gymraeg ni ddylai fod yna effaith ar ddefnyddio'r iaith yn y dosbarth na'r buarth pa ddewis bynnag yr eir ymlaen ag ef. Gydag ysgol wedi'i chyfuno efallai y bydd cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach gan un corff llywodraethol ar y cyd gyda pholisi clir i hyrwyddo Cymraeg iaith gyntaf yn y dosbarth a dwyieithrwydd y tu allan i'r dosbarth.

▪ AE Cludiant

Parthed amser teithio, efallai y bydd yn effeithio ar rai disgyblion gan y byddant yn byw ymhellach o'u hysgol agosaf. Fodd bynnag, gan y bydd y disgyblion hyn, yn ardal Trefriw yn bennaf, dros ddwy filltir o'r ysgol briodol agosaf, bydd ganddynt hawl i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim.

13. A ellir cyfiawnhau unrhyw un o'r cyfyngiadau hyn ar sail hyrwyddo cyfle cyfartal neu feithrin perthynas dda rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd a amddiffynnwyd a rhai nad ydynt?

Yn nhermau'r grwpiau sy'n defnyddio adnoddau'r ysgol neu adnoddau'r ardal mae'r ysgolion yn eu defnyddio'n bresennol, byddai cyfle i berthynas dda gael ei llunio gan y gallai grwpiau gydwethio ac o bosib byddai gwell adnoddau ar gael a gellid llunio grwpiau newydd.

14. A yw unrhyw un o'r cyfyngiadau hyn yn wahaniaethu anghyfreithlon ?

Ydy Na Ansicr
(rhowch groes fel bo'n briodol)

Os Ydy neu Ansicr, yw eich ateb nodwch yn y tabl isod, i ba grŵp(iau) mae'n berthnasol, ac esbonio pam os yn bosibl (gan gynnwys yr effaith debygol neu effeithiau'r newid arfaethedig):

Hil	Grwpiau lleiafrif ethnig du Iaith Sipsiwn / Teithwyr
Anabledd	Symudedd Deheurwydd Dall neu nam ar y golwg Byddar neu nam ar y golwg Iechyd meddwl Anabledd dysgu
Rhyw	Dynion Merched
Oed	Pobl hŷn Plant Pobl ifanc
Crefydd a Chredo	Cymdeithasau crefyddol
Tueddiad rhywiol	Hoyw Lesbiad Deuryw Heterorywiol
Newid rhyw	Rhywun sy'n cynnig, cychwyn neu wedi newid ei ryw
Priodas a Phartneriaeth Sifil	
Beichiog a Mamolaeth	
Hawliau dynol	Hawl i addysg, bywyd preifat a theuluol, amddiffyn eiddo, etc
Ardaloedd sy'n siarad Cymraeg	
Grwpiau neu gymunedau eraill a waharddwyd yn gymdeithasol (nodwch)	

15. Os ydych wedi ateb Na i gwestiwn 14, a yw'r rhwystrau a'r cyfyngiadau yn creu effeithiau gwahaniaethol ar rai grwpiau?

Ydy Na Ansicr
(rhowch groes)

16. Os ydych wedi ateb Ydy neu Ansicr i gwestiwn 15, rhowch fanylion yn y blwch isod ac esbonio pam

17. A oes gennych ddigon o wybodaeth i lunio barn ddysgedig?

Oes Na **(rhowch groes)**

Os Oes, cyfiawnhewch:

Asesiadau effaith llawn wedi'u cynnal sy'n cefnogi'r adroddiad.

Os Na yw'r ateb, pa wybodaeth sydd ei angen am grwpiau a amddiffynwyd?

18. A yw'n bosibl cael yr wybodaeth yn gyflym a rhwydd neu a ddylid cynnwys casglu data yn y cynllun gweithredu? Rhowch fanylion isod:

Data eisoes ar gael, setiau data wedi'u llenwi fel rhan o'r gwaith paratoi.

CAM 5 – TRIN EFFAITH NIWEIDIOL NEU ANGHYFREITHLON A CHRYFHAU POLISI NEU SWYDDOGAETH

Yn yr adran hon, byddwch yn ystyried a oes unrhyw gamau i leihau neu gael gwared ag unrhyw effaith niweidiol. Dylech hefyd ymchwilio dulliau eraill o gyflawni'r un nod a / neu ddulliau amgen o gyflwyno gwasanaeth i gyfarfod anghenion gwahanol grwpiau.

19. Pa gamau y gallwch eu cyflwyno i'r polisi neu ymarfer a fyddai'n lleihau neu gael gwared ag unrhyw effaith anghyfreithlon neu anfantais ?

Bydd gweithredu penodol i leihau a thrin effaith negyddol fel y nodwyd yn yr amrywiol asesiadau effaith, yn cael ei symud ymlaen fel bo'n briodol trwy Gam 3, ar ôl penderfyniad y Cabinet ar gyfer y dewis gorau ar gyfer yr ardal.

20. Pa gamau y gellid eu cynnwys i gryfhau'r polisi/ymarfer a hyrwyddo perthynas dda a hyrwyddo cydraddoldeb cyfle?

Mae Awdurdod Conwy yn parhau i ymwneud ac ymgynghori â rhanddeiliad yn ystod y cynllun i sicrhau bod anghenion ardaloedd yn cael eu cydbwysu.

21. Pa gamau y gallech eu cymryd i gyflawni'r un nod trwy ddull arall ?

CAM 6 – Cynllun Gweithredu

Nodwch isod y camau fyddwch yn eu cymryd i symud ymlaen â'r cynnig. Gallai hyn gynnwys cynnal gweithgareddau ymwneud, casglu data cydraddoldeb pan nad oedd ar gael i helpu gyda'r AEC, cynnal dadansoddiad data o ddata'r dyfodol i gadw golwg ar effaith y polisi/ymarfer hwn yn barhaus, unrhyw weithredu mae'n rhaid i chi ei wneud i sicrhau bod caffaeliad yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol, unrhyw drefniadau sydd angen eu gwneud i gadw golwg ac adolygu effaith y polisi/ymarfer hwn yn y dyfodol, ac ymlaen.

Gweithredu	Mesur Llwyddiant	Amser	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu at y Cynllun Gwasanaeth (□)
Gweithredu i'w wneud cyn y gellir llofnodi AEC? a pholisi/ymarfer				
Rhoi copi o'r Aseiad Effaith Cydraddoldeb i Wasanaeth Anghenion Addysgol Ychwanegol Conwy cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.		Mehefin 13	Damian Hughes <i>Rheolwr y Cynllun</i>	
Gweithredu wedi i AEC a pholisi/ymarfer cael ei lofnodi				
Ymgynghoriad cyhoeddus gyda rhanddeiliad allweddol yr ardal.		Mehefin 13	Damian Hughes <i>Rheolwr y Cynllun</i>	

CAM 7 - Penderfynu Fynd Ymlaen

22. Gan ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i gasglu yng nghamau 1 - 5, nodwch yn y tabl isod a ydych yn gallu mynd ymlaen â'r polisi neu ymarfer ac os hynny, ar ba sail ?

(rhowch groes fel bo'n briodol)

Penderfyniad		Gweithredu
<input checked="" type="checkbox"/> Ydym	Parhau â'r polisi neu ymarfer yn ei ffurf bresennol	Gorffen yr adran Cadw Golwg ac Adolygu (Cam 8) i sicrhau y cedwir golwg ar ganlyniad a'i adolygu'n rheolaidd
<input type="checkbox"/> Ydym	Parhau â'r polisi neu ymarfer ond gyda diwygiadau i wella	Gorffen Cynllun gweithredu ac adrannau Cadw Golwg ac Adolygu (Camau 6 a 8) i asesu effaith yn barhaus
<input type="checkbox"/> Ydym	Parhau â'r polisi neu ymarfer ond gyda diwygiadau i wella i gael gwared ag unrhyw effaith niweidiol a nodwyd yng Ngham 5	Gorffen Cynllun Gweithredu (Cam 6) i drin unrhyw faes o effaith niweidiol a chadw golwg ac adolygu (Cam 8) i asesu effaith yn barhaus
Na	Rhoi'r gorau i'r polisi neu ymarfer gan nad yw'n bosibl trin effaith niweidiol, ac ystyried dulliau eraill o drin y mater	Gorffen Cynllun Gweithredu i drin unrhyw faterion yn deillio o roi gorau i'r polisi a thrin unrhyw effaith niweidiol a ganfuwyd

CAM 8 – Trefniadau ar Gadw Golwg ar Ganlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus nad yw'n gorffen pan fo'r polisi/ymarfer a AEC wedi'i gytuno a'i weithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol arbennig i gadw golwg ar effaith polisiau/ymarfer ar gydraddoldeb yn barhaus i ganfod a yw canlyniadau wedi newid ers cyflwyno'r polisi neu ymarfer newydd.

23. Nodwch isod pa drefniadau fyddwch yn eu gwneud i gadw golwg ac adolygu effaith barhaus y polisi neu ymarfer hwn:

Trefniadau Cadw Golwg ac Adolygu (gan gynnwys ble bydd canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amser ac Amledd	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu at Gynllun Gwasanaeth (✓)
Ail ymweld â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar ôl penderfyniad Cabinet Conwy ar y dewis gorau i fynd ag Ardal Caerhun a Threfriw ymlaen.		Damian Hughes <i>Rheolwr y Cynllun</i>	
Ail ymweld â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb os oes newid i strwythur ysgol/ion yn ystod y cynllun.		Damian Hughes <i>Rheolwr y Cynllun</i>	

CAM 9 – Cyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Trefnwch i'r AEC wedi'i lenwi gael ei gytuno gan bennaeth y gwasanaeth, cyfeirio at y polisi AEC parthed trefniadau cyhoeddi ac anfon copi at y swyddog adnoddau dynol a chydraddoldeb.